ATODLEN 1 Rheoliad 2(1)

Tystysgrifau cnwd sy'n tyfu

# RHAN 1

## Cyffredinol

**1.** Pan gaiff gais i ardystio unrhyw datws hadyd, rhaid i swyddog awdurdodedig—

(a) dyrannu i'r person sy'n gwneud y cais rif sydd i'w alw'n "rhif adnabod y cynhyrchydd" (pan na fo un eisoes yn bod ar gyfer y person hwnnw);

(b) ar ôl archwiliad swyddogol, penderfynu yn unol â'r Atodlen hon ac Atodlen 4 ym mha gategorïau a graddau y mae modd marchnata'r tatws hadyd; ac

(c) yn ddarostyngedig i baragraffau 3 i 11, dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu yn unol â pharagraff 2.

**2.**—(1) Rhaid i dystysgrif cnwd sy'n tyfu ddatgan—

(a) enw a chyfeiriad y ceisydd;

(b) y categorïau a'r graddau y penderfynodd y swyddog awdurdodedig fod modd marchnata'r tatws hadyd ynddynt yn unol â pharagraff 1(b);

(c) enw'r uned amaethyddol y tyfwyd y cnwd arno;

(d) rhif adnabod y cynhyrchydd;

(e) y dyddiad pan gafodd y cnwd sy'n tyfu ei arolygu;

(f) amrywogaeth y tatws hadyd;

(g) ardal y tatws hadyd; ac

(h) lleoliad y cae lle tyfwyd y tatws hadyd.

(2) Yn is-baragraff (1), mae i "uned amaethyddol" yr ystyr a roddir i'r ymadrodd "agricultural unit" yn adran 109(2) o Ddeddf Amaeth 1947(**1**).

**3.** Ni chaniateir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu ond pan fo swyddog awdurdodedig wedi ei fodloni, o ran y tatws hadyd a archwiliwyd gan y swyddog hwnnw—

(a) bod y tatws hadyd o amrywogaeth o rywogaeth o datws sydd wedi ei gofnodi mewn Rhestr Genedlaethol neu yn y Catalog Cyffredin;

(b) bod y tatws hadyd mewn unrhyw un cnwd o un amrywogaeth;

(c) bod y tatws hadyd wedi eu cymryd o gnwd sy'n iach o'r clefydau neu'r plâu a ganlyn—

(i) Clefyd y Ddafaden (*Synchytrium endobioticum* (Schilb) Perc);

(ii) Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws);

(iii) Pydredd Cylch (*Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al ssp *Sepedonicus* (Spieck & Kotth) Davis et al);

(iv) Pydredd Coch (*Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al);

(v) Firoid y Gloronen Bigfain;

(vi) Chwilen Golorado (*Leptinotarsa decemlineata* (Say)); ac

(vii) Llyngyr y Gloronen (*Ditylenchus destructor* (Thorne));

(**1**) 1947 p. 48.

(d) nad yw'r tir y mae'r tatws hadyd yn tyfu arno neu lle y tyfwyd hwy yn dir a ddynodwyd o dan Atodlen 14 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**2**) fel tir a halogwyd gan Glefyd y Ddafaden (*Synchytrium endobioticum* (Schilb) Perc) neu o fewn parth diogelwch a ddynodwyd o dan y Gorchymyn hwnnw;

(e) nad yw neu na fu bylchu'n eithafol yn unman yn y cnwd o'r tatws hadyd sy'n tyfu;

(f) na chafodd y cnwd sy'n tyfu ei chwynnu'n ormodol; ac

(g) y cymerwyd pob cam rhesymol mewn hwsmonaeth yn effeithiol er mwyn atal clefydau a phlâu rhag digwydd, datblygu nac ymledu.

# RHAN 2

## Tatws hadyd cyn-sylfaenol

**4.**—(1) Ni chaniateir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd cyn-sylfaenol o unrhyw radd oni bai bod y swyddog awdurdodedig wedi ei fodloni bod y tir y mae'r tatws hadyd yn tyfu arno neu y tyfwyd hwy arno—

(a) yn dir y canfyddwyd, o ganlyniad i brawf pridd a gynhaliwyd gan Weinidogion Cymru cyn plannu'r cnwd, nad yw wedi ei halogi â'r Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws);

(b) yn dir nad yw wedi ei ddynodi o dan Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 fel tir sydd wedi ei heintio â phoblogaeth Ewropeaidd o'r Llyngyr Tatws; ac

(c) yn dir nad yw wedi ei ddefnyddio ar gyfer tyfu tatws ar unrhyw adeg yn ystod y saith mlynedd yn union cyn plannu'r cnwd.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1)(a) yn gymwys yn achos tatws hadyd a dyfir mewn cyfrwng di-bridd.

**5.** Ni chaniateir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd cyn-sylfaenol gradd PBTC yr Undeb oni bai bod y swyddog awdurdodedig wedi ei fodloni nad yw'r cnwd olynol nesaf a gynhyrchir allan o'r tatws hadyd yn debygol o gynnwys—

(a) planhigion o amrywogaeth wahanol; neu

(b) planhigion sydd wedi eu heffeithio gan firws cymedrol neu ddifrifol.

**6.** Ni chaniateir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd cyn-sylfaenol gradd PB yr Undeb oni bai bod y swyddog awdurdodedig wedi ei fodloni nad yw'r cnwd olynol nesaf a gynhyrchir allan o'r tatws hadyd yn debygol o gynnwys—

(a) mwy na 0.01% yn ôl rhif y planhigion sy'n tyfu sy'n amrywio o'u hamrywogaeth a'u math neu sy'n amrywogaeth wahanol; neu

(b) mwy na 0.5% yn ôl rhif y planhigion sy'n tyfu sy'n arddangos symptomau o heintiau firws pan fo'r symptomau hynny i'w priodoli i haint yn y cnwd tarddiol.

(**2**) O.S. 2006/1643 (Cy. 158), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1795 (Cy. 171); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

# RHAN 3

## Tatws hadyd sylfaenol

**7.**—(1) Ni chaniateir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd sylfaenol o unrhyw radd oni bai bod y swyddog awdurdodedig wedi ei fodloni bod y tir y mae'r tatws hadyd yn tyfu arno neu y tyfwyd hwy arno—

(a) yn dir y canfyddwyd, o ganlyniad i brawf pridd a gynhaliwyd gan Weinidogion Cymru cyn plannu'r cnwd, nad yw wedi ei halogi â'r Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws);

(b) yn dir nad yw wedi ei ddynodi o dan Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 fel tir sydd wedi ei heintio â phoblogaeth Ewropeaidd o'r Llyngyr Tatws; ac

(c) yn dir nad yw wedi ei ddefnyddio ar gyfer tyfu tatws ar unrhyw adeg yn ystod y pum mlynedd yn union cyn plannu'r cnwd.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1)(a) yn gymwys yn achos tatws hadyd a dyfir mewn cyfrwng di-bridd.

**8.** Ni chaniateir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd sylfaenol o unrhyw radd oni bai bod y swyddog awdurdodedig wedi ei fodloni na fydd y cnwd olynol nesaf a gynhyrchir allan o'r tatws hadyd yn debygol o gynnwys—

(a) mwy na 0.25% yn ôl rhif y planhigion sy'n tyfu nad ydynt yn epilio yn driw i'w hamrywogaeth neu sy'n amrywogaeth wahanol; ac

(b) yn achos—

(i) gradd S, dim mwy nag 1%,

(ii) gradd SE, dim mwy na 2%, a

(iii) gradd E, dim mwy na 4%,

yn ôl rhif y planhigion sy'n tyfu sy'n dangos symptomau o heintiau firws sy'n gyffredin yn Ewrop pan fo'r symptomau hynny i'w priodoli i haint yn y cnwd tarddiol.

# RHAN 4

## Tatws hadyd ardystiedig

**9.**—(1) Ni chaniateir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd ardystiedig oni bai bod y swyddog awdurdodedig wedi ei fodloni bod y tir y mae'r tatws hadyd yn tyfu arno neu y tyfwyd hwy arno—

(a) yn dir y canfyddwyd, o ganlyniad i brawf pridd a gynhaliwyd gan Weinidogion Cymru cyn plannu'r cnwd, nad yw wedi ei halogi â'r Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws);

(b) yn dir nad yw wedi ei ddynodi o dan Atodlen 15 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006 fel tir sydd wedi ei heintio â phoblogaeth Ewropeaidd o'r Llyngyr Tatws; ac

(c) yn dir nad yw wedi ei ddefnyddio ar gyfer tyfu tatws ar unrhyw adeg yn ystod y pedair blynedd yn union cyn plannu'r cnwd.

(2) Ond nid yw is-baragraff (1)(a) yn gymwys yn achos tatws hadyd a dyfir mewn cyfrwng di-bridd.

**10.** Ni chaniateir dyroddi tystysgrif cnwd sy'n tyfu sy'n cynnwys datganiad bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd ardystiedig oni bai bod y swyddog awdurdodedig wedi'i fodloni bod y cnwd olynol nesaf a gynhyrchir allan o'r tatws hadyd yn debygol o gynnwys—

(a) yn achos—

(i) gradd A yr Undeb, dim mwy na 0.5%, a

(ii) gradd B yr Undeb, dim mwy na 0.5%,

yn ôl rhif y planhigion sy'n tyfu nad ydynt yn epilio yn driw i'w hamrywogaeth neu sy'n amrywogaeth wahanol; a

(b) yn achos—

(i) gradd A yr Undeb, dim mwy nag 8%, a

(ii) gradd B yr Undeb, dim mwy na 10%,

yn ôl rhif y planhigion sy'n tyfu sy'n dangos symptomau o heintiau firws difrifol sy'n gyffredin yn Ewrop pan fo'r symptomau hynny i'w priodoli i haint yn y cnwd tarddiol.

ATODLEN 2 — Rheoliad 2(1)

Labeli swyddogol a dogfennau swyddogol

# RHAN 1

## Labeli swyddogol

**1.** Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd cyn-sylfaenol fod wedi ei liwio'n wyn gyda llinell groeslinol fioled.

**2.** Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd sylfaenol fod wedi ei liwio'n wyn.

**3.** Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd ardystiedig fod wedi ei liwio'n las.

**4.** Rhaid i label swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd sydd i'w profi a'u treialu fod wedi ei liwio'n oren.

**5.** Rhaid i label swyddogol fesur dim llai na 110 o filimetrau x 67 o filimetrau.

**6.** Rhaid i label swyddogol ar gyfer tatws hadyd cyn-sylfaenol, mewn perthynas â'r tatws hadyd y mae'n ymwneud â hwy, ddatgan y manylion a ganlyn—

(a) yr Awdurdod Ardystio a'r Aelod-wladwriaeth neu eu byrfoddau neilltuol;

(b) rhif adnabod y cynhyrchydd neu rif cyfeirnod y lot;

(c) mis a blwyddyn ei selio;

(d) y rhywogaeth, wedi ei ddangos o leiaf yn yr wyddor Rufeinig, o dan ei enw botanegol, y caniateir ei roi mewn ffurf dalfyredig a heb enwau'r awduron, neu o dan ei enw cyffredin, neu'r ddau;

(e) yr amrywogaeth, wedi ei ddangos o leiaf yn yr wyddor Rufeinig;

(f) y radd; ac

(g) y disgrifiad "pre-basic seed potatoes".

**7.** Rhaid i label swyddogol ar gyfer tatws hadyd sylfaenol neu datws hadyd ardystiedig—

(a) cynnwys y datganiad "EU Rules and Standards"; a

(b) mewn perthynas â'r tatws hadyd y mae'n ymwneud â hwy, ddatgan y manylion a ganlyn—

(i) yr Awdurdod Ardystio a'r Aelod-wladwriaeth neu eu byrfoddau neilltuol;

(ii) rhif adnabod y cynhyrchydd neu rif cyfeirnod y lot;

(iii) mis a blwyddyn ei selio;

(iv) yr amrywogaeth, wedi ei ddangos o leiaf yn yr wyddor Rufeinig;

(v) y wlad lle'u cynhyrchwyd;

(vi) y categori;

(vii) y radd;

(viii) y maint; ac

(ix) y pwysau net.

**8.** Rhaid i label swyddogol ar gyfer tatws hadyd sydd i'w profi a'u treialu—

(a) cynnwys y datganiadau "variety not yet officially listed" ac "for tests and trials only"; a

(b) mewn perthynas â'r tatws hadyd y mae'n ymwneud â hwy, ddatgan y manylion a ganlyn—

(i) yr Awdurdod Ardystio a'r Aelod-wladwriaeth neu eu byrfoddau neilltuol;

(ii) rhif adnabod y cynhyrchydd neu rif cyfeirnod y lot;

(iii) mis a blwyddyn ei selio;

(iv) y rhywogaeth;

(v) dynodiad yr amrywogaeth y mae'r tatws hadyd i gael eu marchnata oddi tano (y caniateir iddo fod yn gyfeirnod y bridiwr, y dynodiad arfaethedig neu'r dynodiad a gymeradwywyd);

(vi) y rhif cyfeirnod mewn cysylltiad â'r cais a gyflwynwyd yn unol â rheoliad 4(1)(a) o'r Rheoliadau Rhestrau Cenedlaethol ar gyfer derbyn yr amrywogaeth o dan sylw ar Restr Genedlaethol;

(vii) y maint; ac

(viii) y pwysau net.

**9.** Yn achos tatws hadyd o amrywogaeth cadwraeth, yn ogystal â gofynion paragraffau 1 i 8, rhaid i label swyddogol gynnwys yr wybodaeth ychwanegol sy'n ofynnol gan Erthygl 18 o Gyfarwyddeb 2008/62/EC.

**10.** Heb iddo leihau effaith paragraffau 1 i 8, caiff label swyddogol gynnwys unrhyw ddatganiadau pellach—

(a) sy'n ymwneud â'r cenhedliad maes y mae'r tatws hadyd yn perthyn iddo;

(b) sy'n ofynnol neu y caniateir eu cynnwys mewn label swyddogol yn unol ag unrhyw ddarpariaeth yn y Rheoliadau hyn neu yng Ngorchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006; neu

(c) sy'n briodol ym marn Gweinidogion Cymru.

**11.** Os nad yw'r label swyddogol yn dangos y cenhedliad maes, bernir bod tatws hadyd yn perthyn—

(a) yn achos tatws hadyd cyn-sylfaenol, i'r pedwerydd cenhedliad;

(b) yn achos tatws hadyd sylfaenol—

(i) gradd S yr Undeb, i'r pumed cenhedliad;

(ii) gradd SE yr Undeb, i'r chweched cenhedliad;

(iii) gradd E yr Undeb, i'r seithfed cenhedliad;

(c) yn achos tatws hadyd ardystiedig, gradd A yr Undeb neu radd B yr Undeb, i'r nawfed cenhedliad.

# RHAN 2

## Dogfennau swyddogol

**12.** Rhaid i ddogfen swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd cyn-sylfaenol fod wedi ei lliwio'n wyn gyda llinell groeslinol fioled.

**13.** Rhaid i ddogfen swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd sydd i'w profi a'u treialu fod wedi ei lliwio'n oren.

**14.** Rhaid i ddogfen swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd sylfaenol fod yn wyn yn bennaf.

**15.** Rhaid i ddogfen swyddogol a ddefnyddir mewn perthynas â thatws hadyd ardystiedig fod yn las yn bennaf.

**16.** Rhaid i ddogfen swyddogol, mewn perthynas â'r tatws hadyd y mae'n ymwneud â hwy, ddatgan—

(a) rhif adnabod y cynhyrchydd neu rif cyfeirnod y lot;

(b) mis a blwyddyn ei seilio; ac

(c) y wlad lle'u cynhyrchwyd.

# RHAN 3

## Gofynion Iaith

**17.** Rhaid i label swyddogol neu ddogfen swyddogol fod yn Saesneg a chânt hefyd fod yn Gymraeg.

**18.** Yn ogystal â'r testun Saesneg sy'n rhaid ei gynnwys yn sgil paragraff 6(g), rhaid i unrhyw destun Cymraeg sy'n cyfateb ag ef gynnwys y disgrifiad "*tatws hadyd cyn-sylfaenol*".

**19.** Yn ogystal â'r testun Saesneg sy'n rhaid ei gynnwys yn sgil paragraff 7(a), rhaid i unrhyw destun Cymraeg sy'n cyfateb ag ef gynnwys y datganiad "*Rheolau a Safonau'r UE*".

**20.** Yn ogystal â'r testun Saesneg sy'n rhaid ei gynnwys yn sgil paragraff 8(a), rhaid i unrhyw destun Cymraeg sy'n cyfateb ag ef gynnwys y datganiad "*amrywogaeth nas rhestrwyd yn swyddogol eto*" ac "*ar gyfer profi a threialu'n unig*".

ATODLEN 3

Rheoliad 2(3)

Clefydau neu blâu, difrod a diffygion a goddefiannau penodedig

# RHAN 1

## Tatws hadyd cyn-sylfaenol o radd PBTC yr Undeb a gynhyrchir yng Nghymru

| *Colofn 1*<br><br>*Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Colofn 2*<br><br>*Goddefiannau unigol* |
|---|---|
| **Grŵp 1** | |
| Clefyd y Ddafaden (*Synchytrium endobioticum* (Schilb) Perc) | Dim |
| Llyngyr y Gloronen (*Ditylenchus destructor* Thorne) | Dim |
| Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws) | Dim |
| Pydredd Cylch (*Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al ssp sepedonicus (Spieck & Kotth) Davis et al) | Dim |
| Pydredd Coch (*Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al) | Dim |
| Firoid y Gloronen Bigfain | Dim |
| Chwilen Golorado (*Leptinotarsa decemlineata* (Say)) | Dim |
| **Grŵp II** | |
| Y Clwy Tatws (*Phytophthora infestans*) (Mont) de Bary) | Dim |
| Pydredd Du'r Coesyn (*Erwinia carotovora* (Jones) Bergey et al spp) *atroseptica* (Hellmers & Dowson) Dye neu *Erwinia chrysanthemi* Burkholder et al neu'r ddau | Dim |
| Pydreddau Meddal gan gynnwys: Pydredd yr Archoll Diferol (*Pythium ultimum Trow*) | Dim |
| Y Pydredd Pinc (*Phytophthora erythroseptica Pethybridge*) a Phydredd y Manbant | Dim |
| Y Pydredd Sych (rhywogaeth *Fusarium*) | Dim |
| Y Madredd (rhywogaeth *Phoma*) | Dim |
| Cloron a ddifrodwyd gan rew | Dim |
| **Grŵp III** | |

| *Colofn 1*<br><br>*Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Colofn 2*<br><br>*Goddefiannau unigol* |
|---|---|
| Brychni'r Croen (Polyscytalum pustulans (Owen & Wakefield) M B Ellis | Dim |
| **Grŵp IV** | |
| Y Cen Du (*Rhizoctonia solani* Kuhn) | Dim |
| Y Crach Cyffredin (rhywogaeth *Streptomyces*) | Dim |
| **Grŵp V** | |
| Y Crach Llychlyd (*Spongospora subterranea* (Wallr) Legerh) | Dim |
| **Grŵp VI** | |
| Brychau allanol, gan gynnwys cloron wedi eu niweidio neu gloron ac eithrio cloron afiach â'u siâp heb fod yn nodweddiadol o'r amrywogaeth | Dim |
| Madredd arwynebol a achosir gan firws tatws Y | Dim |
| Cloron wedi crebachu oherwydd dadhydradu gormodol neu ddadhydradu a achoswyd gan gen arian (*Helminthosporium solani*) | Dim |
| **Grŵp VII** | |
| Baw neu sylwedd estronol arall | 1.0% |

# RHAN 2

## Tatws hadyd cyn-sylfaenol o radd PB yr Undeb a gynhyrchir yng Nghymru

| *Colofn 1*<br><br>*Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Colofn 2*<br><br>*Goddef-iannau unigol* | *Colofn 3*<br><br>*Goddef-iannau grŵp* | *Colofn 4*<br><br>*Goddef-iannau grŵp cyfunol* |
|---|---|---|---|
| **Grŵp I** | | | |
| Clefyd y Ddafaden (*Synchytrium endobioticum* (Schilb) Perc) | Dim | – | – |
| Llyngyr y Gloronen (*Ditylenchus destructor* (Thorne) | Dim | – | – |
| Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws) | Dim | – | – |

| *Colofn 1*<br><br>*Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Colofn 2*<br><br>*Goddef-iannau unigol* | *Colofn 3*<br><br>*Goddef-iannau grŵp* | *Colofn 4*<br><br>*Goddef-iannau grŵp cyfunol* |
|---|---|---|---|
| Pydredd Cylch (*Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al ssp *sepedonicus* (Spieck & Kotth) Davis et al) | Dim | – | – |
| Pydredd Coch (*Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al) | Dim | – | – |
| Firoid y Gloronen Bigfain | Dim | – | – |
| Chwilen Golorado (*Leptinotarsa decemlineata* (Say)) | Dim | – | – |
| **Grŵp II** | | | |
| Y Clwy Tatws (*Phytophthora infestans* (Mont) de Bary) | 0.2% | ) | ) |
| Pydredd Du'r Coesyn (*Erwinia carotovora* (Jones) Bergey et al spp) *atroseptica* (Hellmers & Dowson) Dye neu *Erwinia chrysanthemi* Burkholder et al neu'r ddau | 0.2% | ) | ) |
| Pydreddau Meddal gan gynnwys: Pydredd yr Archoll Diferol (*Pythium ultimumTrow*) | 0.2% | ) | ) |
| Y Pydredd Pinc (*Phytophthora erythroseptica Pethybridge*) a Phydredd y Manbant | 0.2% | ) 0.2% | ) |
| Y Pydredd Sych (rhywogaeth *Fusarium*) | 0.2% | ) | ) |
| Y Madredd (rhywogaeth *Phoma*) | 0.2% | ) | ) |
| Cloron a ddifrodwyd gan rew | 0.2% | ) | ) |
| **Grŵp III** | | | |
| Brychni'r Croen (*Polyscytalum pustulans* (Owen & Wakefield)) M B Ellis | 0.2% | ) | ) 6.0% |
| **Grŵp IV** | | | |
| Y Cen Du (*Rhizoctonia solani* Kuhn)<br><br>Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy'n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o ddeg o'u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd | 1.0% | ) 5.0% | ) |
| Y Crach Cyffredin (rhywogaeth *Streptomyces*)<br><br>Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy'n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o | 5.0% | ) | ) |

| *Colofn 1*<br><br>*Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Colofn 2*<br><br>*Goddef-iannau unigol* | *Colofn 3*<br><br>*Goddef-iannau grŵp* | *Colofn 4*<br><br>*Goddef-iannau grŵp cyfunol* |
|---|---|---|---|
| dair o'u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd | | | |
| **Grŵp V** | | | |
| Y Crach Llychlyd (*Spongospora subterranea* (Wallr) Legerh)<br><br>Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy'n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o ddeg o'u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd | 1.0% | ) | ) |
| **Grŵp VI** | | | |
| Brychau allanol gan gynnwys cloron wedi eu niweidio neu gloron ac eithrio cloron wedi eu heintio â'u siâp heb fod yn nodweddiadol o'r rhywogaeth | 3.0% | ) | – |
| Madredd arwynebol a achosir gan firws tatws Y | Dim | ) 3.0% | – |
| Cloron wedi crebachu oherwydd dadhydradu gormodol neu ddadhydradu a achoswyd gan gen arian (*Helminthosporium solani*) | 0.5% | ) | – |
| **Grŵp VII** | | | |
| Baw neu sylwedd estronol arall | 1.0% | – | – |

# RHAN 3

## Tatws hadyd sylfaenol a thatws hadyd ardystiedig a gynhyrchir yng Nghymru

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* | *Colofn 4* |
|---|---|---|---|
| *Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Goddef-iannau unigol* | *Goddef-iannau grŵp* | *Goddef-iannau grŵp cyfunol* |
| **Grŵp I** | | | |
| Clefyd y Ddafaden (*Synchytrium endobioticum* (Schilb) Perc) | Dim | – | – |
| Llyngyr y Gloronen (*Ditylenchus destructor* Thorne) | Dim | – | – |
| Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws) | Dim | – | – |

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* | *Colofn 4* |
|---|---|---|---|
| *Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Goddef-iannau unigol* | *Goddef-iannau grŵp* | *Goddef-iannau grŵp cyfunol* |
| Pydredd Cylch (*Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al ssp *sepedonicus* (Spieck & Kotth) Davis et al) | Dim | – | – |
| Pydredd Coch (*Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al) | Dim | – | – |
| Firoid y Gloronen Bigfain | Dim | – | – |
| Chwilen Golorado (*Leptinotarsa decemlineata* (Say)) | Dim | – | – |
| **Grŵp II** | | | |
| Y Clwy Tatws (*Phytophthora infestans* (Mont) de Bary) | 0.5% | ) | ) |
| Pydredd Du'r Coesyn (*Erwinia carotovora* (Jones) Bergey et al spp) *atroseptica* (Hellmers & Dowson) Dye neu *Erwinia chrysanthemi* Burkholder et al neu'r ddau | 0.5% | ) | ) |
| Pydreddau Meddal gan gynnwys Pydredd yr Archoll Diferol (*Pythium ultimumTrow*) | 0.5% | ) 0.5% | ) |
| Y Pydredd Pinc (*Phytophthora erythroseptica Pethybridge*) a Phydredd y Manbant | 0.5% | ) | ) |
| Y Pydredd Sych (rhywogaeth *Fusarium*) | 0.5% | ) | ) |
| Y Madredd (rhywogaeth *Phoma*) | 0.5% | ) | ) |
| Cloron a ddifrodwyd gan rew | 0.5% | ) | ) |
| Unrhyw un o'r diffygion Grŵp II hyn sy'n ymddangos fel symptom pydredd gwlyb | 0.2% | ) | ) |
| **Grŵp III** | | | |
| Brychni'r Croen (*Polyscytalum pustulans* (Owen & Wakefield) M B Ellis) | 0.5% ac eithrio gradd E yr Undeb, gradd A yr Undeb a gradd B yr Undeb; 2.0% ar gyfer gradd E yr Undeb, gradd A yr Undeb a gradd B yr Undeb yn unig | ) | ) |
| Y Crach Llychlyd (*Spongospora subterranea* (Wallr) Legerh) | 3.0% | ) 5.0% | ) 6.0% ar gyfer tatws hadyd |

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* | *Colofn 4* |
|---|---|---|---|
| *Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Goddef-iannau unigol* | *Goddef-iannau grŵp* | *Goddef-iannau grŵp cyfunol* |
| Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy'n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o ddeg o'u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd (ac eithrio pan fo'r crach llychlyd yn ei ffurf ganseraidd) | | | sylfaenol ac 8.0% ar gyfer tatws hadyd ardystiedig |
| **Grŵp IV** | | | |
| Y Cen Du (*Rhizoctonia solani* Kuhn)<br><br>Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy'n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o ddeg o'u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd | 5.0% | ) | ) |
| Y Crach Cyffredin (rhywogaeth *Streptomyces*)<br><br>Cyn belled ag y bernir bod tatws hadyd sydd ag o leiaf ddau ysmotyn du yn y pen blaguro sy'n gyfan gwbl heb eu heffeithio ac sydd â llai nag un rhan o dair o'u harwynebedd wedi ei effeithio heb gael eu heffeithio gan y clefyd | 5.0% | ) | ) |
| **Grŵp V** | | | |
| Brychau allanol gan gynnwys cloron wedi eu niweidio neu gloron ac eithrio cloron afiach â'u siâp heb fod yn nodweddiadol o'r rhywogaeth | 3.0% | ) | – |
| Cloron wedi crebachu oherwydd dadhydradu gormodol neu ddadhydradu a achoswyd gan gen arian (*Helminthosporium solani*) | 1.0% | ) 3.0% | – |
| Madredd arwynebol a achosir gan fathau o firws tatws Y | 0.1% | ) | – |
| **Grŵp VI** | | | |
| Baw neu sylwedd estronol arall | 1.0% | – | – |

# RHAN 4

## Tatws hadyd sydd i'w profi a'u treialu

| *Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Goddef-iannau unigol* | *Goddef-iannau cyfunol* |
|---|---|---|
| Llyngyr y Gloronen (*Ditylenchus destructor* (Thorne) | Dim | – |
| Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws) | Dim | – |

| *Clefydau neu blâu, difrod a diffygion penodedig* | *Goddef-iannau unigol* | *Goddef-iannau cyfunol* |
|---|---|---|
| Pydredd Cylch (*Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al ssp. *sepedonicus* (Spieck & Kotth) Davis et al) | Dim | – |
| Pydredd Coch (*Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al) | Dim | – |
| Firoid y Gloronen Bigfain | Dim | – |
| Chwilen Golorado (*Leptinotarsa decemlineata* (Say)) | Dim | – |
| Clefyd y Ddafaden (*Synchytrium endobioticum* (Schilb) Perc) | Dim | – |
| Llyngyr Tatws (rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws) | Dim | – |
| Pydredd Cylch (*Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al ssp *sepedonicus* (Spieck & Kotth) Davis et al) | Dim | – |
| Pydredd Coch (*Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al) | Dim | – |
| Baw neu sylwedd estronol arall | 2.0% | – |
| Pydredd sych a phydredd gwlyb, ac eithrio os achosir hwy gan *Synchytrium endobioticum*, *Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al ssp *Sepedonicus* (Spieck & Kotth) Davis et al) neu *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al) | 1.0% | ) |
| Brychau allanol gan gynnwys cloron wedi eu niweidio neu gloron ac eithrio cloron afiach â'u siâp heb fod yn nodweddiadol o'r rhywogaeth | 3.0% | ) 6.0% |
| Y Crach Cyffredin: cloron yr effeithiwyd arnynt dros fwy na thraean o'u harwynebedd | 5.0% | ) |

(1) Mae'r clefydau, plâu, difrod a'r diffygion sydd i'w hagregu ar gyfer goddefiant grŵp, goddefiant grŵp cyfunol neu oddefiant cyfunol perthnasol yn cael eu dynodi gan ")".

(2) Mae'r clefydau, plâu, difrod a'r diffygion na ddylid eu hagregu ar gyfer goddefiant grŵp, goddefiant grŵp cyfunol neu oddefiant cyfunol perthnasol yn cael eu dynodi gan "-".

(3) Mae llinellau llorweddol o fewn colofn yn dynodi rhychwant goddefiant grŵp, goddefiant grŵp cyfunol neu oddefiant cyfunol perthnasol.

## ATODLEN 4

Rheoliad 2(3)

Graddio tatws hadyd

# RHAN 1

## Tatws hadyd y mae modd eu marchnata fel tatws hadyd cyn-sylfaenol

Wrth wneud penderfyniad at ddibenion paragraff 1(b) o Atodlen 1, pan fo swyddog awdurdodedig yn penderfynu bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd cyn-sylfaenol, caiff y swyddog hwnnw eu graddio fel tatws hadyd o unrhyw un o raddau'r Undeb a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 1 pan fo'r swyddog hwnnw wedi ei fodloni yn sgil arolygiad bod y gofynion a bennir yng ngholofn 2

o ran y radd honno wedi eu bodloni ac nad aed dros y goddefiannau a bennir yng ngholofn 3 mewn cysylltiad â'r tatws hadyd hynny.

**Tabl 1**

| *Colofn 1*<br><br>*Gradd yr Undeb* | *Colofn 2*<br><br>*Gofynion* | *Colofn 3*<br><br>*Goddefiannau* |
|---|---|---|
| PBTC | (1) Rhaid i'r tatws hadyd— | Dim |
| | (a) bod yn deillio o stoc cenhedlol neu gloron a brofwyd— | |
| | (i) sy'n rhydd o *Pectobacterium* spp., *Dickeya* spp., firysau tatws A, M, S, X, Y, crychni'r dail, firws tatws top mop, firws trwst tybaco a marwoldeb gwythiennol tybaco neu unrhyw firws arall o bwys; a | |
| | (ii) a gyflenwyd gan ffynhonnell sy'n dderbyniol gan Weinidogion Cymru, ac a dyfwyd ar uned lle nad oes deunydd o rywogaeth *Solanaceae* na deunydd arall, ac eithrio deunydd sy'n deillio o stoc cenhedlol neu o gloron sydd wedi eu profi sy'n dod o ffynhonnell sy'n dderbyniol gan Weinidogion Cymru, wedi cael ei dyfu; | |
| | (b) bod wedi eu cadw rhag— | |
| | (i) firysau tatws A, M, S, X, Y, crychni'r dail, firws tatws top mop, firws trwst tybaco a marwoldeb gwythiennol tybaco neu unrhyw firws arall o bwys; | |
| | (ii) ysgub y gwrachod a phydredd du'r coesyn; | |
| | (iii)gwyriadau mewn amrywogaeth a math; a | |
| | (iv) sgrwff yn y pridd; | |
| | (c) wedi eu cynhyrchu (yn achos planhigion a chloron) drwy ficro-luosogi mewn cyfleuster gwarchodedig ac mewn cyfrwng tyfu sy'n rhydd rhag plâu; a | |
| | (d) (yn achos cloron) nad ydynt wedi eu lluosi y tu hwnt i'r cenhedliad cyntaf. | |
| PB | (2) Rhaid i'r tatws hadyd fod yn deillio — | |
| | (a) o stoc cenhedlol neu gloron a brofwyd— | |
| | (i) a gyflenwyd gan ffynhonnell sy'n dderbyniol gan Weinidogion Cymru, ac a dyfwyd ar uned lle nad oes deunydd o rywogaeth *Solanaceae* na deunydd arall, ac eithrio deunydd sy'n deillio o stoc cenhedlol neu o gloron sydd wedi eu profi sy'n dod o ffynhonnell sy'n dderbyniol gan Weinidogion Cymru, wedi cael ei dyfu; ac | (i) Pydredd du'r coesyn – dim |

| *Colofn 1* *Gradd yr Undeb* | *Colofn 2* *Gofynion* | *Colofn 3* *Goddefiannau* |
|---|---|---|
| | (ii) sy'n rhydd o *Pectobacterium* spp., *Dickeya* spp., firysau tatws A, M, S, X, Y, crychni'r dail, firws tatws top mop, firws trwst tybaco a marwoldeb gwythiennol tybaco neu unrhyw firws arall o bwys; neu | (ii) yn amrywio o'u math neu o amrywogaeth wahanol, gan gynnwys sgrwff yn y pridd 0.01% |
| | (b) o stoc a gafodd ei raddio fel gradd PB yr Undeb o genhedliad maes blaenorol yn y flwyddyn cyn plannu'r cnwd; neu | (iii) Firysau tatws Y, A a chrychni'r dail - dim |
| | (c) unrhyw datws hadyd eraill yr hysbysodd Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen eu bod yn dderbyniol gan Weinidogion Cymru Cymru. | (iv) Firysau amryliw eraill 0.1% |
| | (3) Rhaid i'r tatws hadyd fod wedi eu cadw rhag— | |
| | (i) firysau tatws A, M, S, X, Y, crychni'r dail, firws tatws top mop, firws trwst tybaco a marwoldeb gwythiennol tybaco neu unrhyw firws arall o bwys; | |
| | (ii) ysgub y gwrachod a phydredd du'r coesyn; | |
| | (iii) gwyriadau mewn amrywogaeth a math; | |
| | (iv) sgrwff yn y pridd; | |
| | (v0 planhigion o amrywogaeth wahanol. | |
| | (4) Pedwar yw uchafswm y cenedliadau maes. | |

# RHAN 2

## Tatws hadyd y mae modd eu marchnata fel tatws hadyd sylfaenol

Wrth wneud penderfyniad at ddibenion paragraff 1(b) o Atodlen 1, pan fo swyddog awdurdodedig yn penderfynu bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd sylfaenol, caiff y swyddog hwnnw eu graddio fel tatws hadyd o unrhyw un o raddau'r Undeb a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 2 pan fo'r swyddog hwnnw wedi ei fodloni yn sgil arolygiad bod y gofynion a bennir yng ngholofn 2 o ran y radd honno wedi eu bodloni ac nad aed dros y goddefiannau a bennir yng ngholofn 3 mewn cysylltiad â'r tatws hadyd hynny.

**Tabl 2**

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| *Gradd yr Undeb* | *Gofynion* | *Goddefiannau* |
| S | (1) Rhaid i'r tatws hadyd fod wedi deillio— | (i) Gwyriadau mewn amrywogaeth a math neu amrywogaeth gwahanol gan gynnwys sgrwff yn y pridd – 0.1% |

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| *Gradd yr Undeb* | *Gofynion* | *Goddefiannau* |
| | (a) o stoc o datws hadyd cyn-sylfaenol neu stoc a raddiwyd yn radd S yr Undeb o bedwar neu lai cenhedliad maes yn y flwyddyn cyn plannu'r cnwd; neu | |
| | (b) o unrhyw datws hadyd eraill yr hysbysodd Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen eu bod yn dderbyniol gan Weinidogion Cymru. | (ii) Firysau tatws Y, A a chrychni'r dail naill ai'n unigol neu ar y cyd - 0.02% |
| | (2) Pump yw uchafswm y cenedliadau maes, gan gynnwys cenedliadau blaenorol o radd gyn-sylfaenol. | (iii) Cyfanswm firysau gan gynnwys firysau amryliw eraill a firysau tatws Y, A a chrychni'r dail - 0.2% |
| | | (iv) Pydredd du'r coesyn - 0.1% |
| SE | (1) Rhaid i'r tatws hadyd fod wedi deillio— | (i) Amrywiad mewn amrywogaeth a math neu amrywogaeth wahanol, gan gynnwys sgrwff yn y pridd - 0.1% |
| | (a) o stoc o datws hadyd cyn-sylfaenol neu stoc a raddiwyd yn radd S yr Undeb neu'n radd SE yr Undeb o bump neu lai cenhedliad maes yn y flwyddyn cyn plannu'r cnwd; neu | |
| | (b) o unrhyw datws hadyd eraill yr hysbysodd Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen eu bod yn dderbyniol gan Weinidogion Cymru. | (ii) Firysau tatws Y, A a chrychni'r dail naill ai'n unigol neu ar y cyd - 0.1% |
| | (2) Chwech yw uchafswm y cenedliadau maes, gan gynnwys cenedliadau blaenorol o ddosbarth cyn-sylfaenol neu ddosbarth sylfaenol. | (iii) Cyfanswm firysau gan gynnwys firysau amryliw eraill a firysau tatws Y, A a chrychni'r dail - 0.5% |
| | | (iv) Pydredd du'r coesyn – 0.5% |
| E | (1) Rhaid i'r tatws hadyd fod wedi deillio— | (i) Amrywiadau mewn amrywogaeth a math neu amrywogaeth wahanol, gan gynnwys sgrwff yn y pridd - 0.1% |
| | (a) o stoc o datws hadyd cyn-sylfaenol neu stoc a raddiwyd yn radd S yr Undeb, gradd SE yr Undeb neu radd E yr Undeb yn y flwyddyn cyn plannu'r cnwd; neu | |
| | (b) o stoc o datws hadyd cyn-sylfaenol neu o stoc a raddiwyd yn radd S yr Undeb, gradd SE yr Undeb neu radd E yr Undeb o chwe chenhedliad | (ii) Firysau tatws Y, A a chrychni'r dail naill ai'n unigol neu ar y cyd -) 0.4% |

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| *Gradd yr Undeb* | *Gofynion* | *Goddefiannau* |
| | maes neu lai yn y flwyddyn cyn plannu'r cnwd; neu | |
| | (c) o unrhyw datws hadyd eraill yr hysbysodd Gweinidogion Cymru mewn ysgrifen eu bod yn dderbyniol gan Weinidogion Cymru. | |
| | (2) Saith yw uchafswm y cenedliadau maes, gan gynnwys cenedliadau blaenorol o radd gyn-sylfaenol neu radd sylfaenol. | (iii) Cyfanswm firysau gan gynnwys firysau amryliw eraill a firysau tatws Y, A a chrychni'r dail - 0.8% |
| | | (iv) Pydredd du'r coesyn – 1.0% |

# RHAN 3

## Tatws hadyd y mae modd eu marchnata fel tatws hadyd ardystiedig

Wrth wneud penderfyniad at ddibenion paragraff 1(b) o Atodlen 1, pan fo swyddog awdurdodedig yn penderfynu bod modd marchnata tatws hadyd fel tatws hadyd ardystiedig, caiff y swyddog hwnnw eu graddio fel tatws hadyd o unrhyw un o'r graddau a bennir yng ngholofn 1 o Dabl 3 pan fo'r swyddog hwnnw wedi ei fodloni yn sgil arolygiad bod y gofynion a bennir yng ngholofn 2 o ran y radd honno wedi eu bodloni ac nad aed dros y goddefiannau a bennir yng ngholofn 3 mewn cysylltiad â'r tatws hadyd hynny.

**Tabl 3**

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
|---|---|---|
| *Gradd yr Undeb* | *Gofynion* | *Goddefiannau* |
| A | Rhaid i'r tatws hadyd fod wedi eu cynhyrchu— | |
| | (a) yn uniongyrchol o datws hadyd cyn-sylfaenol, tatws hadyd sylfaenol neu datws hadyd ardystiedig a raddiwyd yn radd A yr Undeb cenhedliad maes wyth; neu | (i) Firysau tatws Y, A a chrychni'r dail naill ai'n unigol neu ar y cyd – 2.0% |
| | (b) o gnwd a dyfwyd gydag awdurdod Gweinidogion Cymru neu mewn amgylchiadau y rhoddodd Gweinidogion Cymru hysbysiad ysgrifenedig eu bod yn dderbyniol ganddynt. | (ii) Firysau eraill - 2.0% |
| | | (iii) Cyfuniad o firysau tatws Y, A a chrychni'r dail a firysau eraill - 2.0% |
| | | (iv) Pydredd du'r coesyn - 2.0% |
| | | (v) Amrywiadau mewn amrywogaeth a math neu amrywogaeth wahanol, gan gynnwys sgrwff yn y pridd - 0.2% |

| *Colofn 1* | *Colofn 2* | *Colofn 3* |
| --- | --- | --- |
| *Gradd yr Undeb* | *Gofynion* | *Goddefiannau* |
| B | Rhaid i'r tatws hadyd fod wedi eu cynhyrchu— | |
| | (a) yn uniongyrchol o datws hadyd cyn-sylfaenol, tatws hadyd sylfaenol neu datws hadyd ardystiedig a raddiwyd yn radd A yr Undeb cenhedliad maes wyth neu datws hadyd ardystiedig a raddiwyd yn radd B yr Undeb cenhedliad maes wyth; neu | (i) Firysau tatws Y, A a chrychni'r dail naill ai'n unigol neu ar y cyd - 6.0% |
| | (b) o gnwd a dyfwyd gydag awdurdod Gweinidogion Cymru neu mewn amgylchiadau y rhoddodd Gweinidogion Cymru hysbysiad ysgrifenedig eu bod yn dderbyniol ganddynt. | (ii) Firysau eraill - 6.0% |
| | | (iii) Cyfuniad o firysau tatws Y, A a chrychni'r dail a firysau eraill - 6.0% |
| | | (iv) Pydredd du'r coesyn - 4.0% |
| | | (v) Amrywiadau mewn amrywogaeth a math neu amrywogaeth wahanol, gan gynnwys sgrwff yn y pridd - 0.5% |

## ATODLEN 5

Rheoliad 9

### Awdurdodiad i farchnata tatws hadyd at ddibenion profi a threialu

**1.** Pan geir cais am awdurdodiad a wnaed yn unol â rheoliad 9, rhaid i swyddog awdurdodedig—

(a) dyrannu i'r person sy'n gwneud y cais rif sydd i'w alw'n "rhif adnabod y cynhyrchydd" (pan na fo un eisoes yn bod ar gyfer person hwnnw);

(b) cynnal archwiliad swyddogol o'r tatws hadyd er mwyn penderfynu a yw gofynion yr Atodlen hon a Rhan 4 o Atodlen 3 wedi eu bodloni; ac

(c) yn ddarostyngedig i baragraff 3 a rheoliad 9, dyroddi awdurdodiad i farchnata tatws hadyd at ddibenion profi a threialu.

**2.** Rhaid i awdurdodiad ddatgan—

(a) enw a chyfeiriad y ceisydd;

(b) rhif adnabod y cynhyrchydd;

(c) swm y tatws hadyd y rhoddir awdurdod i'w marchnata;

(d) y cyfnod yr awdurdodir marchnata;

(e) dyddiad dyroddi'r awdurdodiad; ac

(f) enw arfaethedig amrywogaeth y tatws hadyd.

**3.** Ni chaiff swyddog awdurdodedig ddyroddi awdurdodiad onid yw wedi ei fodloni—

(a) bod y tatws hadyd o amrywogaeth y gwnaed cais ar ei chyfer o dan reoliad 4(1)(a) o'r Rheoliadau Rhestrau Cenedlaethol ar gyfer derbyn yr amrywogaeth o dan sylw ar Restr Genedlaethol ac nad yw'r cais wedi ei dynnu'n ôl na'i benderfynu'n derfynol;

(b) nad yw'r tir y mae'r tatws hadyd yn tyfu arno neu lle tyfwyd hwy yn dir a ddynodwyd o dan Atodlen 14 i Orchymyn Iechyd Planhigion (Cymru) 2006(**3**) fel tir a halogwyd gan Glefyd y Ddafaden (*Synchytrium endobioticum* (Schilb) Perc) neu o fewn parth diogelwch a ddynodwyd o dan y Gorchymyn hwnnw;

(c) bod y tir y mae'r tatws hadyd yn tyfu arno neu lle tyfwyd hwy yn dir nad yw wedi ei halogi gan rywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws;

(d) bod y tatws hadyd wedi eu cymryd o gnwd o datws hadyd sy'n rhydd rhag rhywogaeth *Globodera* sy'n heintio tatws, *Synchytrium endobioticum* (Schilb) Perc, *Clavibacter michiganensis* (Smith) Davis et al ssp *Sepedonicus* (Spieck & Kotth) Davis et al) a *Ralstonia solanacearum* (Smith) Yabuuchi et al);

(e) nad yw nifer y planhigion sy'n tyfu yr effeithir arnynt gan bydredd du'r coesyn yn fwy na 4%;

(f) bod y cnwd olynol nesaf a gynhyrchir o'r tatws hadyd, ym marn y swyddog awdurdodedig, yn debygol o gynnwys—

(i) dim mwy na 0.5% yn ôl rhif o blanhigion sy'n tyfu nad ydynt yn epilio yn driw i'w hamrywogaeth a dim mwy na 0.2% yn ôl rhif o blanhigion sy'n tyfu sydd o amrywogaeth wahanol; a

(ii) dim mwy na 10% yn ôl rhif o blanhigion sy'n tyfu sy'n dangos symptomau, ac eithrio symptomau ysgafn, o glefydau firws difrifol sy'n gyffredin yn Ewrop (mae heintiau amryliw ysgafn sy'n peri bod deilen yn arddangos gwahanol liwiau ond nad yw'n peri anffurfio'r ddeilen i gael eu hanwybyddu); ac

(g) bod canfyddiad wedi ei wneud nad yw'r tatws hadyd wedi eu heffeithio gan unrhyw un o'r goddefiannau ar gyfer clefydau neu blâu, difrod na diffygion a bennir yn Rhan 4 o Atodlen 3.

## ATODLEN 6

Rheoliad 16

### Gwybodaeth o ran tatws hadyd o fwy na 2 gilogram a gynhyrchir mewn gwlad ac eithrio Aelod-wladwriaeth

— Rhywogaeth.

— Amrywogaeth.

— Categori.

— Gwlad lle cynhyrchir a'r Awdurdod Ardystio.

— Gwlad anfon.

— Mewnforiwr.

— Swm y tatws hadyd.

## ATODLEN 7

Rheoliad 17

### Manylion i'w pennu ar nodyn gwerthiant etc.

— Enw a chyfeiriad y gwerthwr.

(**3**) O.S. 2006/1643 (Cy. 158), a ddiwygiwyd gan O.S. 2010/1795 (Cy. 171); mae offerynnau diwygio eraill ond nid oes yr un ohonynt yn berthnasol.

— Pwysau net (ac eithrio tatws hadyd cyn-sylfaenol).

— Rhywogaeth (ac eithrio tatws hadyd sylfaenol a thatws hadyd ardystiedig).

— Amrywogaeth.

— Categori.

— Gradd (fel y bo'n briodol).

— Maint (ac eithrio tatws hadyd cyn-sylfaenol).

— Rhif adnabod y cynhyrchydd neu (ac eithrio ar gyfer tatws hadyd a gynhyrchir yng Nghymru) rif cyfeirnod lot yr had.

— Manylion unrhyw driniaeth gemegol.